# Cyngor Cymuned Pentir
## Cofnodion Pwyllgor Cyllid Nos Fercher 29ain o Ionawr 2025

1. Presennol

   Cyng L A James Cadeirydd; Cyng I Ellis; Cyng J Pierce; Cyng D Jones-Morris; Cyng B Jones a'r Clerc
2. <u>Ymddiheuriadau</u>
   Pawb yn bresennol
3. Cod Ymddygiad

   Cyng L A James yn ymddiriedolwr yng nghanolfan Penrhos

4. <u>Cofnodion Cyfarfod diwethaf 27 -11</u> -2024
   Derbynwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng I Ellis

5. Cais am Nawdd
   a. Cymdeithas Hanes Dyffrryn Ogwen — Argymell cyfrannu £300
   b. Goriad — Argymell cyfrannu £300

6. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw
   Argymell cadarnhau y canlynnol
   Cyflog Mis Ionawr £ 719.28 H M R C Mis 10 £ 179.80
   Wyn Lewis Torri gwair Tach a llwybrau bangor £640.00 Neuadd Rhiwlas £ 240.00
   A R & M Williams Coed Nadolig £ 336.00 Cymen Cyfieithu Tachwedd £ 204.00
   Yu Energy Trydan y Capel £ 9.90
   Cyngor Gwynedd gosod Goleuadau Nadolig £4619.35 **Nodwyd fod haner hwn o 2023-24**
   Offer Swyddfa Ink a manion £121.98 a £14.00 £ 135.98

7. Cofrestr Risg/Polisia
   Mater sefydlog os oes mater yn codi
   Angen ystyried y templed Rheoliadau ariannol dderbynnwyd o Unllais ar gyfer ei addasu i bwrpas Cyngor Cymuned Pentir
8. Materion Clerc
   Achwyliad Allannol
   Adroddiad derfynnol wedi ei derbyn a'i rhannu hefo'r aelodau
   Tra yn cydnabod a derbyn rhai argymhellion teimlai pawb fod yr amod gyfeirir ato nad oeddent wedi derbyn copiau o gofnodion claddu yn anheg gan fod y llyfr ariannol y fynwent wedi ei gynnwys o fewn y pecyn bostiwyd atynt
   **Cadeirydd am gysylltu i gyflwyno sylwadau y Pwyllgor a hefyd holi am eglurhad am Ad 137**
   Drafft Pen telerau prydles y ganolfan newydd
   Yn dilyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r Clerc hefo swyddogion eiddo Cyngor Gwynedd derbynnwyd drafft o pen-telerau Prydles ar gyfer y Ganolfan newydd. Cafwyd sylwadau a cytunwyd disgwyl am arweiniad gan ein Cyfreithwyr oedd hefyd wedi derbyn copi. Yn amlwg bydd angen hefyd eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn cyn ymateb yn ol i Cyngor Gwynedd
   Cais Sian Gwenllian am gefnogaeth
   Cais electronig wedi ei dderbyn gan ein Aelod Seneddol yng Nghaerdydd yn gofyn am gefnogaeth i'w chais i gael Ysgol ddeintyddol yma ym Mangor
   Cytunwyd yn unfrydol – **Clerc i gysylltu nol drwy lythyr**

**Daeth y cyfarfod i ben 21.20**